# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth 13 Ionawr 2026** |
| **AMSER** | **Cychwyn am 7y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Y Ganolfan, Llithfaen LL53 6NH** |
| **CADEIRYDD** | **William Jones (Is Gadeirydd) yn absenoldeb y Cadeirydd (OR)** |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso:**<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Williams Jones (Is Gadeirydd CC Pistyll) |
| 2. | **Presennol:**<br>Gethin Jones (GJ), Sianelen Pleming (SP), Griffith Jones (GJLJ), Emlyn Williams (EW), Osian Williams (OW), Cynghorydd Jina Gwyrfai (JG)<br><br>**Ymddiheuriadau gan:**<br>Olwen Roberts (OR), Lois Fychan (LF)<br><br>**Heb datgan ymddiheuriadau o flaen llaw at y cyfarfod:**<br>Ynyr Elis (YE)<br><br>***Canllaw Un Lais Cymru 'Y rheol chwe mis ar gyfer presenoldeb' - os yr aelod yn methu mynychu cyfarfod o fewn cyfnod o chwe mis, mae'r aelod hwnnw/honno yn peidio bod yn aelod o'r cyngor yn syth, oni bai fod y methiant oherwydd rhyw reswm a gymeradwywyd gan y cyngor cyn diwedd y cyfnod o chwe mis'.*** |
| 3. | **Datgan diddordeb:** Neb |
| 4. | **Cyflwyno a mabwysiadu cofnodion o cyfarfod diwethaf - Rhagfyr 2025:** OW eu bod yn gywir ac eiliodd GJLJ. |
| 5. | **Materion yn codi:**<br>A) Bocs Pethau'r cyn Glerc.<br>**Penderfyniad:** Trefnu aelodau i gyfarfod i fynd drwy'r bocs cyn cyfarfod nesaf am 6.30yh ac cael cyfarfod byr ar gyfer mis Chwefror.<br>B) Fainc Pistyll / Llithfaen<br>**Diweddariad:** Clerc wedi archebu dau fainc priodol ar wefan cwmni Glasdon ac disgwyl dyddiad danfon. Wedi gofyn am tri pris am y gwaith gan arbenigwyr lleol. Clerc wedi derbyn dau ebost hefo pris ond 3ydd ddim hefo amser i anfon pris/gwneud y gwaith. Pris Adeiladwr GJ wedi cymeradwyo gan yr aelodau ac Clerc i anfon e-bost.<br>C) Enwau newydd i arwyddo Sieciau CC Pistyll / System Bancio newydd.<br>**Diweddariad:** GJLJ wedi mynd ac ID i HSBC ond oedd angen yr mandad bancio hefyd. Cysylltu ag OR sydd hefo yr mandad bancio.<br>D) E-bost CCP.<br>**Diweddariad:** GJ wedi anfon canllawiau step by step i aelodau gallu defnyddio / agor e-bost CCP.<br>E) Maes Parcio Y Ganolfan.<br>**Penderfyniad:** Does dim gwaith wedi dechrau ar adnewyddu y maes parcio, angen cysylltu a'r Ganolfan i cael fwy o wybodaeth.<br>F) Coed Nadolig<br>**Diweddariad:** Pawb yn cytuno fod y Coeden Nadolig yn Llithfaen ac yn Pistyll wedi gwneud gwahaniaeth ac wedi codi calon drost yr wyl. Diolch i OW am y cyfraniad o'r goeden i Pistyll.<br>G) Lon Groes<br>**Diweddariad:** Cyn JG – wedi cysylltiad ag Iwan Ap Trefor (Cyngor Gwynedd). Angen trafod yn cyfarfod nesaf. |
| 6. | **Gwefan CC Pistyll:**<br>GJ – i diweddaru hefo cofnodion cyfarfodydd Hydref 2025 ymlaen ac yr Awdit diweddaraf |
| 7. | **Diweddariad Cyllidol gan y Is Cadeirydd (WJ)**<br>Cyfrifon Banc Cyngor Cymuned Pistyll: Cyfrif Elusennol: £16,456.20 a Cyfrif Cadw: £2,803.07<br>Addasu polisïau ariannol: SEP (cynnig) ac GJ (eilio)<br><br>**Diweddariad Asedau:**<br>• Ddifibrilwyr (2) – Un wedi'i leoli yn Llithfaen ac un yn Pistyll. CC Pistyll wedi ad-dalu cost y ddau fatri pad newydd.<br>• Gysodfannau Bws (2)<br>• Mainc (2) Wedi'u lleoli yn Pistyll ac yn Llithfaen.<br>• Maes Parcio – Ben Nant<br>• Biniau Baw Ci (4) - 1 ym Mhistyll ac 3 yn Llithfaen. Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am y bin sydd wedi'i leoli yn Nant.<br>• Tir Comin – Hanner y mynydd.<br>• Y Ganolfan – Mae Cyngor y Gymuned yn dal y les ar yr adeilad, tra bod Pwyllgor y Ganolfan yn gyfrifol am weithredu'r ganolfan o ddydd i ddydd. |
| 8. | **Pwyllgor y Ganolfan** |

| | |
|---|---|
| | Mae Cyngor Cymuned yn dal y les ar yr adeilad, tra bod Pwyllgor y Ganolfan yn gyfrifol am weithredu'r ganolfan o ddydd i ddydd. |
| **9.** | **Unrhyw Fater Arall / Materion lleol:**<br>Trefn cyllidol.<br>**Penderfyniad:** Clerc i edrych drwy trefn cyllido clerc Eurwyn (2017) i wybod sut i cofnodi trefn cyllidol 2025 ymlaen.<br><br>Precept CCP<br>**Penderfyniad:** Nid yw Precept Cyngor Cymuned Pistyll wedi codi ers 2020, mae angen ei godi ychydig bach bob blwyddyn hefo costau byw ayyb. GJ (cynnig) ac SEP (eilio)<br><br>Aelodau methu mynychu Cyfarfodydd<br>**Penderfyniad:** aelodau cytuno i clerc anfon e-bost allan i holl aelodau yn atgoffa iddynt mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ac cysylltu hefo yr Clerc os nid ydynt yn gallu mynychu hefo rheswm neu unrhyw aelodau sydd yn colli 4 cyfarfod yn olynol yn derbyn rhybydd ysgrifennedig oherwydd mae angen i bob aelod gallu fod yn bresennol i wneud unrhyw penderfyniad pwysig am eu ardal.<br><br>Sedd gwag CCP yn Llithfaen<br>**Penderfyniad**: Mae DT wedi anfon llythyr ymddiswyddo oherwydd oriau gwaith. Clerc i cysylltu ag Cyngor Gwynedd i cael hysbyseb swyddogol i rhoi ar wefan CCP, tudalen Facebook Llithfaen a poster yn Siop.<br><br>Gwersi nofio plant<br>**Penderfyniad:** GJ wedi dod a hyn i sylw aelodau bod gwersi nofio plant wedi eu gorhurio am o leiaf dau fis yn Canolfan Hamdden Pwllheli oherwydd maent yn gwneud gwaith symud yr ystafell fitrwydd I'r llawr cyntaf, er bod gwersi nofio ysgolion dal i fynd ymlaen. Mae Byw yn Iach hefyd dal i cymeryd talidau misol drwy 'Direct Debit' er bod y gwersi ddim ar gael. Clerc i anfon e-bost i Byw yn Iach i codi pryder am gorhurio gwersi ac cymeryd taliadau.<br><br>Cyn JG – Unllais Cymru<br>**Penderfyniad:** Angen i fwy o aelodau CCP i fynd ar cyrsiau Unllais Cymru yn y Gymraeg, SEP a GJ wedi cytuno mynychu Cyllid Llywodraethu.<br><br>Cyng JG - Toiledau Llithfaen<br>**Penderfyniad:** Mae Cyngor Gwynedd yn gwerthu 6 o safle toiledau ar hyd Gwynedd sydd bellach ddim yn cael eu defnyddio gan yr cyhoedd. Mae toiledau Llithfaen ar werth, GJ dweud does dim llawr o safle dymchwel ac adeiladau tŷ yno ac mae bron yn gwaelod gardd un o'r trigolion sydd yn defnyddio y safle i cadw ei biniau ailgylchu.<br><br>Clerc i anfon llythyr i Dewi Wyn Owen (CG) i gofyn be ydi sefyllfa llwybrau cyhoeddus yn Llithfaen ac pa llwybrau sydd yn dod o dan categori 1, 2, 3 neu 4, hefyd oes yna llwybrau yma yn Pistyll<br>**Penderfyniad:** Clerc i ail anfon e-bost i Dewi Wynn Owen (CG) i holi am ymateb. |
| **10.** | **Cyfarfod Nesaf:**<br>Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal Nos Fawrth, 10 Chwefror 2026, **am 6.30yh i fynd drwy bocsys gwaith papur y clerc (GT).**<br>Bydd yna cyfarfod byr yn dilyn am 7.30yh yn y Ganolfan, Llithfaen LL53 6NH.<br>***Os ni fyd aelodau yn gallu mynychu angen gadael I'r Clerc neu aelod arall wybod i gallu rhoi ymddiheuriadau o flaen llaw.*** |